

# Prosiect Gwasanaethau Gwirfoddolwyr Integredig:



.....  
Beth wnaethon ni, beth ddysgon  
ni a beth sy'n digwydd nesaf?  
.....



---

# Contents

---

**Adran 1:**

Amlinelliad o'r prosiect ..... 3

**Adran 2:**

Beth wnaethon ni.....5

**Adran 3:**

Beth ddysgon ni.....7

**Adran 4:**

What yn digwydd nesaf?.....12

---

# Adran 1: Amlinelliad o'r prosiect

---

## **Pwy ydym ni?**

Mae Partneriaeth Age Cymru yn cynnwys chwe elusen wahanol o bob rhan o Gymru, sy'n gweithio o dan yr un brand;

- Age Cymru;
- Age Cymru Dyfed;
- Age Cymru Gwent;
- Age Cymru Gwynedd a Môn;
- Age Cymru Powys;
- Age Cymru Gorllewin Morgannwg.

Daeth y prosiect hwn â ni at ein gilydd i gydweithio ar greu adnoddau partneriaeth a pholisi ynghylch gwirfoddoli.

## **Amcanion y prosiect**

Roedd y prosiect Gwasanaethau Gwirfoddol Integredig yn brosiect Partneriaeth Age Cymru a ariennir gan Grant Gwirfoddoli Strategol y CGGC a gynhaliwyd rhwng Ionawr 2022-Mehefin 2022.

Sefydlwyd y prosiect am sawl rheswm:

### **1. I adeiladu capasiti ar y cyd.**

Roedd gan bob partner nifer gwahanol o wirfoddolwyr presennol, roedd gan un partner tua 300 tra bod un arall newydd ddechrau ar eu cynllunio i recriwtio eu gwirfoddolwyr cyntaf. Roeddem eisiau creu tîm o wirfoddolwyr partneriaeth Age Cymru, allai symud ar draws y rhwydwaith sy'n cefnogi partneriaid a phrosiectau fel yr oedd angen;

### **2. Meithrin capasiti ar y cyd o amgylch rheoli gwirfoddolwyr.**

Roedd gan rai partneriaid aelod o staff neu sawl aelod o staff oedd yn gyfrifol am gefnogi gwirfoddolwyr. Gydag eraill, dim ond un rhan o'u swydd oedd cefnogi gwirfoddolwyr. Golygai hyn fod anghysondeb wedi bod ar draws y bartneriaeth o ran cefnogi gwirfoddolwyr. Roeddem am greu adnoddau, dogfennau a strwythurau mentor cyfoedion gwirfoddol i greu cysondeb ac adeiladu gallu ein harweinwyr gwirfoddol;

### **3. Roeddem am hwyluso amrywiaeth o brofiadau gwirfoddoli.**

Ar hyn o bryd mae arfer gorau ar draws y bartneriaeth o bontio'r cenedlaethau a gwirfoddoli amrywiol. Roeddem am rannu arbenigedd i greu cynnig croesawgar a chynhwysol. Roedden ni hefyd eisiau creu rhywbeth sy'n hyblyg ac sy'n gallu cwrdd ag anghenion gwirfoddolwyr sydd â blaenoriaethau cystadleuol fel gwaith, astudiaethau, neu ofal plant.

### **4. Cyflwyno fframwaith gwirfoddoli.**

Fel rhan o'r prosiect, roeddem am gyflwyno fframwaith gweledol un dudalen ar gyfer gwirfoddoli. Roeddem am greu ymrwymiad a chanllawiau i sut y byddem yn gweithio gyda'n gilydd, gyda gwirfoddolwyr a sut y byddai hyn yn gweithio, a sut fyddai gwirfoddolwyr yn ein helpu i gyflawni ein cenhadaeth a'n huchelgeisiau sefydliadol.

#### **Ein hallbynnau allweddol**

Er mwyn cyflawni nodau craidd y prosiect hwn roeddem am gynhyrchu:

- Fframwaith gweledol i'w mabwysiadu a'i ddatblygu ar draws y bartneriaeth;
- Proses ar gyfer pasbortio gwirfoddolwyr rhwng partneriaid;
- Dogfennau a pholisi recriwtio safonol i gynorthwyo'r broses basportio;
- Hyfforddiant sefydlu craidd wedi'i symleiddio ar gyfer pob gwirfoddolwr;
- Polisi gwirfoddolwyr cyson a gweithdrefnau cefnogi;
- Cynllun cyfathrebu gwirfoddolwyr partneriaeth;
- Rôl mentor cyfoedion i wirfoddolwyr i fynd gyda chefnogaeth staff;
- Data cyffredin wedi'i osod o gwmpas gwirfoddoli.

### ***Heriau roedden ni'n eu rhagweld***

1. Roeddem yn gwybod bod ein hamcanion yn uchelgeisiol yn y ffrâm amser oedd gennym ar gael, felly roedd risg na fyddem yn gallu cyflawni popeth o fewn yr amserlenni yr oeddwn wedi eu gosod;
2. Gydag unrhyw brosiect, mae potensial y gallai gwirfoddolwyr a staff fod yn wrthwynebus i'r newidiadau a grëwyd gennym fel rhan o'r prosiect. I oresgyn yr her hon, roeddem yn bwriadu cynnwys aelodau allweddol o staff o bob rhan o'r bartneriaeth a gwirfoddolwyr yn y broses o fewn grwpiau gweithio cydgynhyrchiol.

---

# Adran 2: Beth wnaethon ni

---

## Beth wnaethon ni

Ar ôl pythefnos cychwynnol o gynllunio, fe lanswyd sawl grŵp gwahanol a gyfarfu'n wythnosol dros gyfnod y prosiect. O fis Chwefror tan fis Ebrill, buom yn canolbwyntio ar y Fframwaith Gwirfoddoli, dogfennau a phrosesau ac adnoddau hyfforddi recriwtio. Yna, o fis Ebrill tan fis Mehefin buom yn gweithio ar brosesau rheoli gwirfoddolwyr a chasglu data. Ym mis Mehefin fe ddechreuon ni gyflwyno'r adnoddau a'r dogfennau roedden ni wedi eu creu.

### Y Fframwaith

Er mwyn creu'r fframwaith, roedden ni'n rhedeg grŵp ffocws a holiadur. Daeth y grŵp ffocws â staff o bob rhan o'r bartneriaeth ynghyd i ddeall beth rydyn ni'n ei wneud yn dda, lle rydyn ni'n gweld ein hunain yn y dyfodol a'n gweledigaeth ar gyfer gwirfoddoli.

Cynhaliwyd yr holiadur i ofyn i wirfoddolwyr am eu safbwyntiau - yr hyn yr oeddent yn ei hoffi am wirfoddoli gyda ni, yr hyn y gallem fod yn ei wneud yn well a sut maen nhw'n gweld eu gwaith yn effeithio ar bobl hŷn ledled Cymru.

Ffurfiodd yr ymchwil hyn ein fframwaith gwirfoddoli gweledol un dudalen (gweler delwedd atodiad 1).

### Ein polisiau gwirfoddoli, gweithdrefnau, ac adnoddau eraill

Er mwyn creu'r dogfennau hyn, buom yn cynnal 3 gweithgor (recriwtio, hyfforddi, a chefnogaeth barhaus) gydag arweinwyr gwirfoddol o bob rhan o'r bartneriaeth. Fe wnaethon ni adolygu dogfennau presennol a gwella arnyn nhw, gan ddangos y dogfennau a'r prosesau i wirfoddolwyr o bob rhan o'r bartneriaeth i gael adborth cyn eu llofnodi.

## **Beth wnaethon ni greu**

Yn ystod 5 mis y prosiect, fe greon ni'r canlynol:

- Fframwaith Gwirfoddoli Partneriaeth Age Cymru;
- Adnoddau recriwtio gwirfoddolwyr wedi'u symleiddio (ffurflen gais, ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth, sgwrs am y rôl ar ffurf ffurflen, ffurflen gais am eirida, templed disgrifiad rôl);
- Proses er mwyn i ni fedru pasbortio gwirfoddolwyr rhwng gwahanol gyfleoedd partneriaeth, gweithdrefn staff a chanllawiau "Sut i";
- Cyfres o wyth fideo hyfforddiant craidd, PowerPoint a llyfrynau hyfforddi. Fe wnaethom greu gwahanol ddulliau o ymgymryd â'r hyfforddiant a hwyluso dewisiadau gwirfoddol amrywiol;
- Plattform e-ddysgu ar gyfer yr hyfforddiant gan gynnwys canllawiau "Sut i" am sut i ddefnyddio'r plattform;
- Tystysgrifau hyfforddi a ffurflen adborth hyfforddiant;
- Dogfennau cymorth gwirfoddoli traws-sefydliad (gan gynnwys cynllun cyfathrebu gwirfoddolwyr, inolunteer policy, dogfennau ar gyfer gwirfoddolwyr sydd yn gadael, adnoddau a rôl cymheiriaid cefnogi gwirfoddolwyr, llawlyfr gwirfoddoli, ac arolwg gwirfoddol blynyddol);
- Dulliau o gasglu set ddata gwirfoddolwyr cyffredin (cofnodi niferoedd gwirfoddolwyr, oriau, cyswllt â phobl hŷn, amrywiaeth o wirfoddolwyr a boddhad gwirfoddoli);
- Rhwydwaith Rheolwyr Gwirfoddolwyr traws-sefydliadol i barhau â'r gwaith cydweithredol y dechreuodd y prosiect hwn.

---

# Adran 3: Beth ddysgon ni

---

## 1. Cyd-gynhyrchu ac ymgynghori

Term sy'n disgrifio'r broses o ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr yn cydweithio ar y cyd i gyrraedd canlyniad yw cyd-gynhyrchu.

O'r dechrau, roeddem yn gwybod ein bod am i'r prosiect hwn gael ei gyd-gynhyrchu â rhanddeiliaid allweddol a fyddai'n hanfodol wrth ddylanwadu ac arwain ar gyfer creu newid o fewn pob sefydliad.

Fel rhan o'r broses gynllunio, cynhaliwyd dadansoddiad gan rhanddeiliaid i benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o gynnwys rhanddeiliaid.

## Dadansoddi rhanddeiliaid



Nodwyd mai'r grwpiau allweddol i gyd-gynhyrchu â nhw, a gweithio ochr yn ochr â nhw, drwy gydol y prosiect hwn fyddai'r staff sy'n arwain ar wirfoddoli neu sydd yn rheoli gwirfoddolwyr. Byddai dod â'u harbenigedd, eu profiad, a'u gwybodaeth am eu gwirfoddolwyr ynghyd yn hollbwysig i sicrhau bod y dogfennau a grëwyd yn addas i'r diben ac yn gynaliadwy.

Er mwyn sicrhau bod y rhanddeiliaid hyn yn cael eu cyflwyno o'r dechrau, treuliais amser yn cyfarfod gyda'r arweinwyr gwirfoddoli o bob rhan o'r bartneriaeth er mwyn i mi gael gwybod lle'r oedd eu partner / prosiect o ran gwirfoddoli, eu cryfderau a'u heriau presennol.

Gwahoddwyd y staff hwn i weithgorau i gydweithio wrth greu, dylunio a rhoi adborth adeiladol ar yr hyn a grëwyd. Gofynnais iddyn nhw feddwl am y gwirfoddolwyr o fewn eu timau fyddai'n ddylanwad cryf ymysg eu cyfoedion gan wahodd y gwirfoddolwyr hynny i ymuno â'r gweithgorau hefyd.

# Heriau'n ymwneud â chyd-gynhyrchu: Gwirfoddolwyr a chyd-gynhyrchiad

Fel tîm o staff a fu'n rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr, roeddem i gyd yn awyddus iawn o'r dechrau i wahodd gwirfoddolwyr i'r gweithgorau fel y gallent greu adnoddau gyda ni i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Roeddem yn ymwybodol bod ein gwirfoddolwyr yn hoffi gwybod o flaen llaw lefel yr ymrwymiad sy'n cael ei ofyn felly ysgrifennon ni amlinelliadau gweithgor manwl fel y byddai gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r hyn yr oeddent yn cytuno i'w wneud (gweler atodiad 2).

Digwyddodd pob cyfarfod yn rhithiol, oherwydd ei fod yn brosiect cenedlaethol, a chredem y byddai hyn yn apelio at ein gwirfoddolwyr gan ei fod yn ychwanegu haen o hyblygrwydd ac ni fyddai'n ychwanegu'r rhwystr ychwanegol o deithio.

Fe wnaethon ni hefyd dargedu gwirfoddolwyr oedd wedi bod yn ymwneud â datblygu rôl gwirfoddolwyr o ddydd i ddydd.

Ond er bod gwirfoddolwyr yn awyddus i gymryd rhan doedden nhw ddim yn ymuno â'n gweithgorau. Gwelsom yn yr un modd fod hyn yn wir pan geision ni redeg grŵp ffocws gyda gwirfoddolwyr i fwydo i mewn i'n Fframwaith Gwirfoddoli Partneriaeth.

Roedd y prif resymau dros beidio bod eisiau ymuno â grwpiau yn cynnwys;

- Dim ond eisiau canolbwyntio ar eu rôl gwirfoddoli;
- Doedd ganddynt ddim amser oherwydd gwaith / astudiaethau / gofal plant.

## Dysgu allweddol:

1. Yn y diwedd fe wnaethon ni ofyn i wirfoddolwyr sut yr hoffant nhw fod yn rhan o bethau a rhoi adborth ar yr hyn rydyn ni'n ei greu drwy gydol y prosiect hwn. Dywedodd gwirfoddolwyr yn unfrydol y bydden nhw'n hoffi llenwi holiaduron ar-lein. Roedd y rhain i'w gweld yn gweithio'n dda ar gyfer cael ymatebion ac adborth o ansawdd gan nifer fawr o wirfoddolwyr yr oeddem yn eu defnyddio i ddatblygu adnoddau a phrosesau. Ar yr holiadur a oedd yn bwydo i mewn i'n Fframwaith Gwirfoddolwyr, cawsom 66 o ymatebion, ond os byddem yn rhedeg grŵp ffocws, mae'n debyg mai dim ond 10-12 o wirfoddolwyr oedd gennym yn bresennol. Fe wnaeth holiaduron ein helpu i gael mwy o ymatebion wrth gasglu barn gwirfoddolwyr.
2. Er i ni esbonio pam ein bod am iddynt fod yn rhan o'r grŵp a'r buddion y byddai'n eu rhoi i wirfoddolwyr yn y dyfodol, roedd llawer o'r gwirfoddolwyr dim ond eisiau cyflawni eu rôl wirfoddoli ac roeddent yn dibynnu ar staff i greu rhywbeth iddyn nhw. Pe bai gennym fwy o amser, byddai wedi bod yn fuddiol treulio amser yn datblygu awydd am gyd-gynhyrchu i'n gwirfoddolwyr gan gynnwys sesiynau ynghylch beth yw cyd-gynhyrchu a sut y gall fod o fudd iddyn nhw.



# Uchafbwynt cyd-gynhyrchu: rhannu arferion gorau ac adeiladu perthynas

Cyn i'r prosiect ddechrau, roedd rhai o aelodau'r grŵp wedi cyfarfod am gyfnod byr yn rhwydweithiau Age UK, cynadleddau ac fel rhan o brosiectau eraill ar y cyd. Fodd bynnag, cyfarfodydd y gweithgor oedd y tro cyntaf i lawer ohonom gwrdd yn iawn.

Er bod holl aelodau'r grŵp yn arweinwyr gwirfoddoli yn eu sefydliadau amrywiol, roedd pob person yn dod o gefndiroedd gwahanol a gyda lefelau gwahanol o arbenigedd. Roedd rhai aelodau'n dod o gefndir Adnoddau Dynol, roedd eraill yn dod o gefndir rheoli gwirfoddolwyr ac wedi gweithio fel gwirfoddolwyr mewn sefydliadau eraill, roedd rheolwyr prosiect yn rhan o'r prosiect, a hefyd roedd rhai pobl oedd yn newydd i'w sefydliad. Roedd dod â'r gwahaniaethau hyn at ei gilydd yn caniatáu inni weld yr adnoddau drwy'r lensys amrywiol hyn a chreu systemau a phrosesau cadarn.

Roedd rhai partneriaid wedi mabwysiadu technolegau amrywiol gyda rhywfaint o lwyddiant, ac fe wnaethom adeiladu ar yr arbenigedd hwn;

- Cyflwynodd un partner ni i Ffurflenni Microsoft ar gyfer ein ffurflenni recriwtio a chyfeirio gwirfoddolwyr;
- Daeth un partner o hyd i ffordd o basbortio data gwirfoddol drwy'r gronfa ddata ar-lein a ddefnyddiwyd gennym i gyd a'n helpodd i greu proses syml ac effeithiol i gefnogi sut roeddem yn symud gwirfoddolwyr rhwng rolau gwirfoddoli;
- Cyflwynodd un partner ni i blatfform e-ddysgu a oedd wedi cael ei dreialu gan Age UK yn ddiweddar ac fe ddaethon ni i ben a mabwysiadu hyn ar gyfer ein hyfforddiant gwirfoddoli craidd.

Roedd y gwaith cydgynhyrchol drwy'r gweithgorau hyn nid yn unig yn caniatáu inni rannu arferion gorau ond yn caniatáu inni adnabod bylchau eraill. Dechreuon ni sylwi, er ein bod yn adeiladu'r banc hwn o adnoddau a chefnogaeth i wirfoddolwyr, roedd angen i ni greu'r un gefnogaeth hon i'n staff sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr i sicrhau cynaliadwyedd ein gwaith. O hyn datblygom amlinelliad prosiect i wneud cais am arian i barhau â'n gwaith. Byddaf yn siarad mwy am hyn yn adran olaf yr adroddiad hwn.

Yn ein cyfarfod olaf, dyma rai o sylwadau aelodau o staff fu'n rhan o'r gwaith prosiect ynglŷn â'u huchafbwyntiau o fod yn rhan o'r gweithgorau cydgynhyrchol:

*“Roedd rhannu arferion gorau yn uchafbwynt, roeddwn i'n gwerthfawrogi'n fawr fy mod yn gallu clywed meddyliau pobl”*

*“Yn ein sefydliad does gennyn ni ddim arbenigwr gwirfoddol ymroddedig. Roeddwn yn hoffi fy mod wedi cael gwybodaeth gan eraill yn y grŵp oedd ag arbenigedd”*

*“Dydyn ni ddim bob tro wedi cydweithio yn y gorffennol, ac rydyn ni gyd wedi dysgu pethau gwahanol”*

## **2) Defnyddio arbenigwyr ac ymchwil allanol**

I ddechrau, roeddem am rannu ac adolygu'r hyn a oedd gennym ar waith yn ein sefydliadau gwahanol. Un o'r nodau craidd oedd sicrhau bod ein hadnoddau'n hygyrch ac yn gynhwysol. Roedden ni'n ymwybodol iawn ein bod dod o sefydliadau tebyg a bod y mwyafrif ohonom yn fenywod gwyn, felly dim ond drwy un lens y bydden ni'n ffurfio ein dogfennau. Felly, gwnaethom ddefnyddio sawl dull i edrych ar yr hyn a oedd gennym ar waith:

1. Cynnal ymchwil ac adolygu adborth gan ein timau gwirfoddoli presennol;
2. Darllen ymchwil gan sefydliadau gwirfoddoli, fel Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol;
3. Mynychu grwpiau a chynadleddau megis grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gwirfoddoli'r CGGC, rhwydweithiau gwirfoddoli Cyngor Gwirfoddol Sirol, sesiynau hyfforddi Age UK ac edrych ar adnoddau elusennol eraill.

### **Fe wnaeth y rhain ein helpu i ddatblygu ein hadnoddau mewn gwahanol ffyrdd;**

- Fel rhan o'r broses o ddatblygu ein cynllun Cyfathrebu Gwirfoddolwyr, roeddem am ddeall cymhellion amrywiol ein tîm o wirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn flaenllaw yn ein meddyliau wrth gyfathrebu. Drwy adolygu ffurflenni cyfweiliadau gwirfoddolwyr, fe wnaethom lunio chwe chymhelliad sylfaenol a oedd gan ein gwirfoddolwyr y mae angen i ni eu hystyried wrth deilwra'r ffordd rydym yn cyfathrebu. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn gobeithio datblygu yn y dyfodol gydag ymchwil ychwanegol;
- Fe wnaeth ymchwil gan sefydliadau fel NCVO ein dysgu bod angen i'n prosesau gwirfoddoli gael elfen o hyblygrwydd a bod angen iddynt fod yn gystadleuol, gan mai un o'r rhesymau allweddol pam nad yw pobl yn gwirfoddoli yw'r hyn mai pobl yn credu yw'r ymrwymiad amser. Oherwydd y gwaith ymchwil, gwnaethom ddatblygu hyfforddiant y gellid ei gwblhau ar blatfform e-ddysgu fel y gallem ddarparu ar gyfer gwirfoddolwyr nad oedd yn medru mynychu hyfforddiant ymsefydlu wyneb yn wyneb oherwydd gwaith, gofal plant neu astudio;
- Mewn cynadleddau, hyfforddiant, a chyfarfodydd rhwydwaith cwrddon ni ag arbenigwyr oedd yn edrych ar ein dogfennau i ni ac yn rhoi awgrymiadau i ni ynglŷn â sut y gallwn ni ei wella. Diolch i'r arbenigwyr y gwnaethom siarad â nhw, fe ddysgon ni am welliannau syml a fyddai'n gwneud gwahaniaeth enfawr - er enghraifft, fe wnaethon ni newid trefn rhai o'r

cwestiynau ar y ffurflen fonitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth oherwydd fe ddysgon ni fod ymchwil yn dangos bod pobl yn fwy tebygol o ateb cwestiynau penodol os ydyn nhw'n dod ar ôl cwestiynau eraill. Bydd hyn yn ein helpu i gael darlun cliriach o amrywiaeth ein timau gwirfoddoli ac yn ein helpu i fynd ati i weithio i wella'r darlun hwn wrth symud ymlaen.

## **Ein ffrindiau beirniadol**

I gael persbectif mwy amrywiol ar ein dogfennau gwirfoddoli o'r dechrau, dangoswyd ein dogfennau i ffrind beirniadol o'r tu allan i'r sefydliad. Gallai fod wedi bod yn rhywun o sefydliad arall neu'n ffrind / aelod o'r teulu. Fe ofynnnon ni iddyn nhw:

- Beth maen nhw'n ei hoffi am ein proses / dogfennau?
- Os rhywbeth, beth am y broses / dogfennau fyddai'n eu rhwystro nhw rhag gwirfoddoli gyda ni?
- Oes unrhyw beth ar goll o'n prosesau y credant y byddai'n ddefnyddiol fel gwirfoddolwr newydd / darpar wirfoddolwr?

O'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r broses ffrind beirniadol, casglom wybodaeth allweddol. Roeddem yn medru defnyddio'r wybodaeth hyn wrth adolygu a gwella ein dogfennau:

1. Newid syml roedden ni'n gallu ei wneud oedd addasu ein holl ddogfennau i brint mawr a newid lliw'r papur er mwyn cefnogi pobl sydd â Dyslecsia neu nam ar y golwg. Fe wnaethom hefyd ychwanegu recordiadau llais at ein ffurflenni cais ar-lein, fel y gallai pobl â nam golwg wrando ar y cwestiwn yn hytrach na darllen os oedd hynny'n opsiwn gwell iddyn nhw.
2. Fe wnaethom ychwanegu opsiwn i bobl roi gwybod i ni beth oedd eu rhagenwau wrth wneud y cais. Fe wnaethom hefyd gynnwys yn ein polisi recriwtio a dewis segment ar sut i gefnogi gwirfoddolwyr gyda gwiriadau sensitif ar gyfer Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer ymgeiswyr trawsryweddol.
3. Roeddem yn fwy gofalus am hygyrchedd- roeddem yn cynnwys adran datganiad hygyrchedd yn ein templed proffil rôl wirfoddol. Fe wnaethon ni hefyd greu cyfleoedd i wirfoddolwyr dynnu sylw at unrhyw anabledau neu afiechydon sydd ganddyn nhw a sut y gallwn eu cefnogi wrth wirfoddoli gyda ni ar y ffurflen gais neu yn ystod cyfweiliad.

---

## Adran 4: What yn digwydd nesaf?

---

Er bod y prosiect hwn wedi dod i ben, dim ond y dechrau yw hyn am sut y byddwn yn cydweithio o ran gwirfoddoli. Drwy gydol cyfnod y prosiect, daeth hi'n amlwg bod darn ychwanegol o waith yr oeddem am ymgymryd ag ef ar y cyd. Gan ein bod wedi llwyddo i gyd-gynhyrchu adnoddau gwirfoddoli a pholisi o amgylch gwirfoddoli, roeddem yn gwybod ein bod am ymgymryd â darn o waith i gefnogi'r staff sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr.

Gyda'n gilydd, rydyn ni wedi cynllunio'r cam nesaf yn ein gwaith - cyfres o ffyrdd o gefnogi'r staff sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr. Bydd hyn yn cynnwys:

- Pecyn sefydlu / hyfforddi i staff sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr;
- Adnodd mewnwelediad cynulleidfaoedd ar gyfer gwirfoddolwyr i'n helpu i greu cyfathrebu pwrpasol i'n timau gwirfoddoli;
- Pecyn cymorth ymarferol i gyd-fynd â'r fframwaith, gydag enghreifftiau arfer gorau o sut mae wedi'i gyfieithu gan brosiectau a phartneriaid;
- Rydyn ni eisiau creu rôl wirfoddol i eistedd ar y rhwydwaith gyda ni a bod yn llais y gwirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr pan fyddwn yn datblygu adnoddau a chefnogaeth ychwanegol. Gobeithiwn y bydd y rôl hon yn ein helpu i adeiladu awydd am gyd-gynhyrchu ymhlith ein gwirfoddolwyr.

Gobeithiwn y bydd hyn nid yn unig yn ymwreiddio'r gwaith a grëwyd o'r prosiect hwn, ond hefyd yn magu hyder ein staff sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr (yn enwedig y rhai sy'n newydd i weithio gyda gwirfoddolwyr) ac, yn y pen draw, yn parhau i wella profiad y gwirfoddolwyr.

Bydd y darn hwn o waith nid yn unig yn dod â sgiliau ac arbenigedd presennol ein staff sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr at ei gilydd i'w rannu ar draws y bartneriaeth, ond byddwn ni'n edrych tuag allan i weld beth allwn ni ei ddysgu gan sefydliadau eraill a gobeithio y gallwn barhau i rannu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu gyda'r sector.

# Datganiad o weledigaeth:



Bydd Partneriaeth Age Cymru, ar y cyd, yn cynllunio, croesawu, hyfforddi a chefnogi tîm gwirfoddoli amrywiol a hyblyg a fydd yn cydweithio â staff i greu Cymru sy'n ystyriol o oedran.

## Bydd ein staff yn cyd-weithio i...

Greu prosesau recriwtio, sefydlu a chefnogi syml, cyson a hyblyg ar gyfer gwirfoddolwyr;	Creu a defnyddio rhwydweithiau traws-sefydliadol i gynllunio, recriwtio, cyfathrebu a gwerthuso gyda'i gilydd;	Sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn cydweithio ar draws y bartneriaeth fel tîm unedig a chydlynol;	Sicrhau ein bod yn adnabod ein gwirfoddolwyr ac yn rhoi profiadau a chyfleoedd amrywiol iddynt adeiladu a defnyddio eu sgiliau;	Bod yn gynhwysol ac edrych tuag allan yn rhagweithiol am ffyrdd arloesol o groesawu tîm amrywiol;	Bod yn fyfyrion, rhannu arfer gorau, a gwrandao ar leisiau gwirfoddolwyr i wella'r hyn a wnawn a sut rydym yn ei wneud.
--	--	---	---	---	---

## Bydd staff yn gweithio gyda gwirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn...

Teimlo bod croeso iddynt, eu grymuso a'u chefnogi, a chefnogi'r staff y maent yn gweithio gyda nhw;	Teimlo'n rhan o gymuned fawr Partneriaeth Age Cymru a chymunedau lleol ledled Cymru;	Cael llais; ymgynghori â hwy, cydweithio â hwy, a chyd-gynhyrchu mwy o wasanaethau, prosiectau a chyfleoedd newydd;	Gwybod beth sy'n digwydd ar draws y bartneriaeth a chael yr offer, y sgiliau a'r hyfforddiant i symud yn hawdd rhwng cyfleoedd;	Teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a theimlo ein bod yn dathlu'r gwaith a wnânt;	Pontio'r cenedlaethau ac yn amrywiol. Byddant yn rhannu eu sgiliau a'u profiadau â'i gilydd a'r bobl hyn y maent yn gweithio gyda nhw.
---	--	---	---	---	--

## Bydd ein gwirfoddolwyr yn gweithio gyda phobl hyn i sicrhau eu bod yn...

Teimlo'n llai ynysig yn gymdeithasol, yn rhan o'u cymunedau ac yn rhan o'r cymunedau rydym yn adeiladu ar eu cyfer;	Teimlo'n rymus, yn hyderus ac yn gwybod beth a phwy all eu chefnogi, yn enwedig mewn cyfnod o argyfwng;	Teimlo'n ddiogel ac yn byw yn rhydd rhag camdriniaeth;	Gwella eu llesiant meddyliol a chorfforol;	Goresgyn rhwystrau drwy roi llais iddynt;	Cael hwyl, cyfeillgarwch a theimlo eu bod yn cael eu clywed.
---	---	--	--	---	--

# Amlinelliad y gweithgorau

### Enw'r gweithgor:

Recriwtio gwirfoddolwyr

### Aelodau'r grŵp:

Bryony Darke a staff a chynrychiolwyr gwirfoddolwyr o bartneriaid brand Age Cymru/Age Cymru

### Aelod arweiniol (os yn berthnasol):

Bryony Darke

### Nod y grŵp:

- Adolygu'r prosesau a dogfennau recriwtio gwirfoddolwyr presennol ar draws Age Cymru a'r partneriaid brand a'u hadolygu i'w symleiddio a chreu dull ac adnoddau safonol.
- I greu proses a chanllaw pasbortio.
- Sefydlu Rhwydwaith Recriwtio Gwirfoddolwyr

### Ymrwymiad amser:

- Cyfarfodydd 5x 2 awr o ddechrau Chwefror i ddechrau mis Mawrth
- Ymrwymiad i wneud gwaith y tu allan i'r grŵp
- Cyfraniad dewisol i'r grŵp ffocws gwirfoddolwyr

### Gweithredoedd / allbynnau'r grŵp

- Ffurflen gais safonol a ffurflen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Ffurflen cyfweiliad safonol
- Ffurflenni cyfeirio safonol
- Polisi recriwtio a dethol safonol i lawlyfr staff ar recriwtio gwirfoddolwyr (gan gynnwys safoni gwiriadau DBS a chofnodi, a pha ddogfennaeth i'w storio ar Log Elusen)
- Rhedeg grŵp ffocws gyda gwirfoddolwyr i gael adborth terfynol cyn i unrhyw beth gael ei gytuno

### Erbyn pryd

Canol mis Ebrill

**Rhestr cyfarfodydd/terfynau amser:**

Dyddiad cyfarfod/amser	Amcanion y cyfarfod	Gwaith sydd angen ei gyflawni rhwng cyfarfodydd
Cyfarfod: 14/02/2022, 2-4	<ul style="list-style-type: none"><li>Cyflwyno gwaith y grŵp</li><li>BD i fynd trwy adroddiad o'r hyn sydd eisoes yn bodoli</li><li>Adborth grŵp ar yr hyn sy'n bodoli, a chreu camau i safoni</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>BD i safoni ffurflen gais, ffurflen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ffurflen cyfweliad a ffurflenni cyfeirio yn seiliedig ar gamau gweithredu</li></ul>
Terfyn amser: 17/02/22, canol dydd	<ul style="list-style-type: none"><li>BD i anfon dogfennau safonol i'r grŵp am sylw.</li><li>BD i anfon y polisi recriwtio presennol i'w drafod.</li><li>BD i anfon rhesymeg dros Basbortio i'w drafod.</li></ul>	
Cyfarfod, 21/02/22, 2-4	<ul style="list-style-type: none"><li>Adolygu a rhoi sylwadau ar bolisi recriwtio a dethol.</li><li>Mapio creadigol o broses basportio.</li><li>Camau i'w dirprwyo ar gyfer canllaw pasbortio.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Staff i weithio ar eu hadrannau o basportio a'u hanfon i BD erbyn canol dydd 28/02</li><li>BD i hysbysebu ar gyfer gwirfoddolwyr grwpiau ffocws</li><li>BD i wneud golygiadau i bolisi recriwtio a dethol</li></ul>
Terfyn amser: 28/02/22 canol dydd	<ul style="list-style-type: none"><li>BD i anfon dogfennau pasbortio gweithgor a sylw recriwtio a dewis wedi ei olygu cyn y cyfarfod</li></ul>	
Cyfarfod: 02/03/22, 2-4	<ul style="list-style-type: none"><li>Adborth ar ddogfennau a anfonwyd cyn y cyfarfod</li><li>Cwestiynau cynllunio ar gyfer grŵp ffocws gwirfoddolwyr a'r sawl sydd eisieu cefnogi gwaith y grŵp ffocws</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>BD i wneud golygiadau terfynol i ddogfennau yn seiliedig ar y cyfarfod</li></ul>

Terfyn amser: 04/03/22	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BD i anfon dogfennau am adborth gwirfoddolwyr i'r grŵp ffocws cyn y cyfarfod</li> </ul>	
Grŵp ffocws: 07/03/22, 2-3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwirfoddolwr i wneud sylwadau ar ddefnyddioldeb a hygyrchedd dogfennau</li> <li>• Gwirfoddolwyr i sôn am eu profiadau o recriwtio</li> </ul>	
Cyfarfod: 11/03/22, 2-4	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BD i ddarparu adborth am y wybodaeth a gasglwyd o'r grŵp ffocws a chreu camau i grynhoi dogfennau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelodau staff i grynhoi dogfennau yn seiliedig ar adborth ac anfon at BD</li> </ul>
Terfyn amser: 16/03/22	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dogfennau terfynol wedi eu cwblhau a'u hanfon i BD i'w llofnodi</li> <li>• BD i'w hanfon i ffwrdd i'w cyfieithu</li> </ul>	
Cyfarfod olaf: 18/03/22, 2-4	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Grŵp yn nodi telerau'r Grŵp Rhwydwaith Gwirfoddolwyr sydd wedi eu penderfynu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BD i anfon telerau'r grŵp rhwydwaith at aelodau'r gweithgor</li> </ul>

### **WPryd fydd gwaith y grŵp hwn wedi'i gwblhau?**

Pan fydd dogfennau terfynol wedi eu cwblhau a'u llofnodi, a grŵp rhwydwaith wedi cael ei greu i barhau â'r gwaith